Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Barn Gyhoeddus am Goedwigaeth 2009, Cymru

Canlyniadau Arolwg Cymru ar y Farn Gyhoeddus am Goedwigaeth

22 Hydref 2009

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ystadegau Swyddogol:

Mae hwn yn gyhoeddiad Ystadegau Swyddogol. Am ragor o wybodaeth ynglŷn ag Ystadegau Swyddogol ac Awdurdod Ystadegau'r DU ymwelwch â www.statisticsauthority.gov.uk/

Paratowyd gan: Natalie Jamieson a Gilly Diggins
Economeg ac Ystadegau, Comisiwn Coedwigaeth,
231 Corstorphine Road, Caeredin, EH12 7AT

Ymholiadau: Jackie Watson 0131 314 6171
statistics@forestry.gsi.gov.uk

Ystadegydd: Gilly Diggins 0131 314 6218

Gwefan: www.forestry.gov.uk/statistics

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 3

1.Cyflwyniad 6
1.1 Cefndir 6
1.2 Yr adroddiad hwn 6
1.3 Cynllun yr arolwg 7
1.4 Dadansoddiad atchweliad 8

2. Manteision ac anfanteision coedwigaeth 8
2.1 Manteision Coedwigaeth 9
2.2 Anfanteision Coedwigaeth 11
2.3 Tirwedd Leol 15

3. Coed yn danwydd 20
3.1 Defnyddio Coed yn Danwydd 20
3.2 Rhesymau dros beidio â defnyddio Coed yn Danwydd 22

4. Cynnyrch coed 23
4.1 Prynu cynnyrch coed 23
4.2 Ymwybyddiaeth o Gyrff Ardystio 24

5. Hamdden a choetiroedd 26
5.1 Ymweliadau â choetiroedd 26
5.2 Amlder ymweliadau â choedwigoedd neu goetiroedd 27
5.3 Rhesymau dros ddewis ymweld â choetiroedd 29

6. Ymgysylltu â'r Gymuned 32
6.1 Ymgynghoriad cyhoeddus 32
6.2 Gweithgareddau Dysgu wedi'u Trefnu 34
6.3 Cadwraeth a Gwirfoddoli 36

Atodiad 1: Trawstoriadau a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi 39
Atodiad 2: Matrics cydberthynas o'r newidynnau a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi 40
Atodiad 3: Dull samplu Beaufort Research 42
Atodiad 4: Holiadur Cymru 2009 43

Crynodeb Gweithredol

Arolwg 2009

Yn 2009, cynhaliwyd tri arolwg barn ar wahân am goedwigaeth – ledled y DU (2,011 o gyfweliadau), Cymru (1,002 o gyfweliadau) a'r Alban (1,040 o gyfweliadau).

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r arolwg yng Nghymru (1,002 o gyfweliadau) ac yn ei gymharu ag arolygiad blaenorol yng Nghymru ac arolwg y DU 2009, lle bo hynny'n briodol. Mae'n amlygu unrhyw wahaniaethau rhwng barn oedolion yng Nghymru yn ôl rhanbarthau daearyddol (e.e. rhanbarth a graddau gwledigrwydd) a newidynnau demograffig-gymdeithasol (e.e. rhyw ac oedran).

Roedd rhai o'r cwestiynau a ofynnwyd yn arolwg Cymru 2009 yr un fath â'r rhai a ofynnwyd yn 2007 (ac mewn blynyddoedd cynharach); fodd bynnag, gofynnwyd nifer o gwestiynau newydd ar bynciau fel yr hyn y mae ymatebwyr yn ei hoffi ac nad ydynt yn ei hoffi am eu tirwedd leol a phrynu cynnyrch coed.

Mae adroddiadau ar wahân yn darparu canlyniadau tebyg ar gyfer y DU, Lloegr a'r Alban.

Manteision ac Anfanteision Coedwigaeth

Yn 2009, roedd 96% o'r ymatebwyr o'r farn bod coetiroedd o fudd i'r gymuned leol. Y fantais fwyaf cyffredin a fynegwyd oedd bod coetiroedd yn 'darparu lleoedd i fywyd gwyllt fyw' (81%). Roedd ymatebwyr o ogledd Cymru yn fwy tebygol na'r rheiny mewn rhanbarthau eraill i fynegi o leiaf un fantais.

Roedd pedwar o bob deg o'r ymatebwyr (40%) o'r farn bod o leiaf un mater yn gysylltiedig â choetiroedd o anfantais i'w cymuned leol. Ymatebwyr o Dde Orllewin/Canolbarth Cymru oedd y lleiaf tebygol o roi anfantais (28%). Yr anfantais fwyaf cyffredin a fynegwyd oedd bod 'coetiroedd yn ein hymyl ni yn darparu lle ar gyfer gweithgarwch troseddol' (17%).

Holwyd ymatebwyr ynghylch yr hyn y maent yn ei hoffi ac nad ydynt yn ei hoffi am eu tirwedd leol. Y nodweddion mwyaf poblogaidd oedd 'bryniau/mynydd agored neu weundir' (65% o'r ymatebwyr), yna 'coed' (63%), 'mannau agored e.e. parciau' (61%), 'coetir neu goedwig' (59%) a 'dŵr (môr, afonydd, llynnoedd, camlesi)' (56%).

Pan ofynnwyd iddynt beth nad oeddent yn ei hoffi am eu tirwedd leol, yr ateb mwyaf cyffredin oedd "adeiladau e.e. eglwysi, tai ac ati" gyda 13% o'r ymatebwyr yn dyfynnu hyn. Dywedodd dros ddau draean (69%) nad oedd unrhyw beth nad oeddent yn ei hoffi am eu tirwedd leol.

Coed yn danwydd

Adroddodd 14% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio coed yn danwydd yn eu cartrefi, naill ai ar ei ben ei hun neu â thanwyddau eraill. O'r rhain, roedd 51% yn ystyried eu hunain yn ddefnyddwyr rheolaidd, a dywedodd 18% eu bod yn ei ddefnyddio fel eu prif fanwydd gwresogi. Yn fwyaf cyffredin, dywedodd yr ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio coed yn danwydd eu bod yn 'hapus â'r system bresennol' (40%).

Cynnyrch Coed

Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (56%) eu bod wedi prynu o leiaf un cynnyrch coed yn ystod y 12 mis diwethaf, a'r cynnyrch mwyaf cyffredin a brynwyd oedd dodrefn. Dywedodd dros draean yr ymatebwyr (36%) eu bod wedi gweld logo y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth (FSC) ar gynnyrch coed, tra'r oedd 12% wedi gweld logo'r Rhaglen ar gyfer Cymeradwyo Cynlluniau Ardystio Coedwigoedd (PEFC).

Hamdden mewn Coetiroedd

Dywedodd bron i ddau draean o'r ymatebwyr (63%) eu bod yn gallu cyrraedd coetir neu goedwig heb ddefnyddio car na chludiant arall. Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr hyn (54%) eu bod yn ymweld â'r coetiroedd neu'r coedwigoedd hyn o leiaf unwaith y mis.

Y ffactor mwyaf cyffredin a fynegwyd gan ymatebwyr wrth ddewis ymweld â choetiroedd oedd 'heddwch a thawelwch' a 'golygfeydd deniadol', gyda 65% yn nodi'r nodweddion hyn. 'Amrywiaeth o weithgareddau' oedd y lleiaf tebygol o ddylanwadu ar benderfyniad ymatebydd i ymweld (21%).

Ymgysylltu â'r Gymuned

Adroddodd 5% o'r ymatebwyr yr ymgynghorwyd â nhw ynghylch cynlluniau ar gyfer creu, rheoli neu ddefnyddio coetiroedd, a dywedodd 32% o'r ymatebwyr yr hoffent gymryd rhan mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol. Roedd hanner yr ymatebwyr hynny yr ymgynghorwyd â nhw yn teimlo eu bod wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch creu, rheoli neu ddefnyddio coetiroedd yn eu hardal, tra'r oedd 53% o'r rheiny yr hoffent gymryd rhan mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol yn teimlo y byddant yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau tebyg.

Dywedodd tua phumed o'r ymatebwyr (19%) eu bod nhw neu aelod o'u teulu wedi mynychu gweithgaredd dysgu wedi'i drefnu a oedd yn ymwneud â choetiroedd yn ystod y 12 mis diwethaf. Y gweithgaredd mwyaf cyffredin yr oedd ymatebwyr neu aelodau o'u teulu wedi'i fynychu oedd teithiau ysgol (11% o'r ymatebwyr).

Adroddodd 3% o'r ymatebwyr eu bod wedi cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol yn ymwneud â choetiroedd yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd 3% o'r ymatebwyr eu bod yn aelod o grŵp cymunedol sy'n ymwneud â chadwraeth a/neu reoli coetiroedd lleol.

1.Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cynnal arolygon bob dwy flynedd ar agweddau'r cyhoedd tuag at goedwigaeth a materion yn ymwneud â choedwigaeth er 1995. Ers hynny, mae'r arolygon wedi datblygu fel a ganlyn:

- Yn yr arolygon cychwynnol, arolygwyd sampl gynrychioliadol o 2,000 o oedolion ledled Prydain Fawr (PF);
- Yn 2001, gyda mwy o ddiddordeb mewn canlyniadau ar lefel gwledydd ym Mhrydain, gofynnwyd cwestiynau ychwanegol i samplau cynrychioliadol o 1,000 yr un yng Nghymru a'r Alban;
- Casglwyd gwybodaeth ar gyfer Gogledd Iwerddon hefyd yn y gorffennol trwy arolygon ar gyfer y DU gyfan yn 2003 a 2007 a'r arolygon ar wahân a gynhaliwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon (1,000 o oedolion) yn 2005 a 2007;
- Yn 2009, cynhaliwyd tri arolwg ar wahân ar gyfer y DU, Cymru a'r Alban. Gofynnwyd rhai cwestiynau ym mhob un o'r tri arolwg a gynhaliwyd yn 2009, ond mae nifer gynyddol o'r cwestiynau yn benodol i rai arolygon.

Mae'r tabl isod yn grynodeb o'r arolygon blaenorol ac yn cyflwyno nifer amcangyfrifedig yr oedolion y cyfwelwyd â nhw ar gyfer pob gwlad. Mae canlyniadau Lloegr yn is-set o arolwg y DU neu Brydain Fawr.

	2003	**2005**	**2007**	**2009**
DU	4,000 o oedolion	Dim arolwg	4,000 o oedolion	2,000 o oedolion
PF	Dim arolwg	4,000 o oedolion	Dim arolwg	Dim arolwg
Lloegr	3,412 o oedolion	3,367 o oedolion	3,339 o oedolion	1,685 o oedolion
Cymru	1,000 o oedolion	1,000 o oedolion	1,000 o oedolion	1,000 o oedolion
Yr Alban	1,000 o oedolion	1,000 o oedolion	1,000 o oedolion	1,000 o oedolion
Gogledd Iwerddon	Dim arolwg	1,000 o oedolion	1,000 o oedolion	Dim arolwg

1.2 Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canlyniadau o arolwg 2009 yng Nghymru ac yn eu cymharu ag arolygon blaenorol yng Nghymru ac arolwg 2009 y DU, lle bo hynny'n briodol. Mae hefyd yn amlygu unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng barn oedolion yng Nghymru yn ôl rhanbarthau daearyddol, graddau gwledigrwydd, amddifadedd a newidynnau demograffig-gymdeithasol (e.e. rhyw ac oedran).

Mae cyfres lawn o dablau, sy'n adrodd ar ganlyniadau pob cwestiwn yn ôl newidynnau daearyddol a demograffig-gymdeithasol ar gael ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth, ochr yn ochr â'r adroddiad hwn [1].

Mae adroddiadau ar wahân yn cyflwyno canlyniadau'r arolygon a gynhaliwyd yn Lloegr a'r Alban, yn ogystal â'r arolwg ar gyfer y DU gyfan.

1.3 Cynllun yr arolwg

Cymerwyd y canlyniadau o Gymru a gyflwynir yn yr adroddiad hwn o arolwg Omnibws Beaufort Research, a gynhaliwyd o 6 i 18 Mawrth 2009 ar ran y Comisiwn Coedwigaeth. Roedd yr arolwg wedi'i seilio ar sampl gynrychioliadol o 1,002 o oedolion (16 oed neu'n hŷn) ledled Cymru. Ceir mwy o fanylion am y dull samplu yn Atodiad 3: Dull samplu Beaufort Research. Cymerwyd canlyniadau blaenorol Cymru, a gyflwynir er mwyn cymharu, o arolygon omnibws tebyg gan Beaufort Research.

Cymerwyd canlyniadau 2009 y DU a gyflwynir yn yr adroddiad hwn o arolwg Omnibws Hapsamplu Lleoliad NOP GfK a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2009. Ceir mwy o fanylion am y dull samplu yn adroddiadau y DU a Lloegr a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn[1].

Mae'r holl ganlyniadau'n amodol ar effeithiau siawns mewn samplu, ac felly dylid ystyried amrediad ansicrwydd (bwlch hyder) mewn perthynas ag unrhyw ganlyniad o'r arolwg. Mae'r bylchau hyder yn ystyried effeithiau clystyru, pwysoli a haeniad yng nghynllun yr arolwg (gweler Atodiad 3: Dull samplu Beaufort Research am fwy o fanylion).

- Ar gyfer cwestiynau a ofynnwyd i sampl gyfan Cymru o 1,002, ni ddylai'r amrediad ansicrwydd ynghylch unrhyw ffigur fod yn fwy na ±4.6%.
- Am gyfer ymatebion is-grwpiau, h.y. cwestiynau na ofynnwyd i sampl gyfan yr ymatebwyr, mae'r amrediad ansicrwydd yn gyfatebol uwch. Er enghraifft, ni ddylai'r ansicrwydd ar gyfer ystadegau yn ôl rhyw fod yn fwy na ±6.6%; mae rhanbarth De Orllewin/Canolbarth Cymru yn cyfrif am 30% o'r sampl (299 o ymatebwyr), felly ni ddylai'r ansicrwydd fod yn fwy nag ±8.5%, ac mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cyfrif am 21% o'r sampl (210 o ymatebwyr), felly ni ddylai'r bwlch hyder ynghylch y canlyniadau fod yn fwy na ±10.1%.
- Ar gyfer cwestiynau a ofynnwyd i sampl gyfan y DU 2009 o oddeutu 2,000, ni ddylai'r amrediad ansicrwydd ynghylch unrhyw ffigur fod yn fwy na ±3.3%. Yn ystod blynyddoedd blaenorol pan oedd sampl y DU yn fwy (tua 4,000), ni ddylai'r ansicrwydd ynghylch unrhyw ffigur fod yn fwy na ±2.3%.
- Ar gyfer cwestiynau a ofynnwyd i samplau cyfan, mae gwahaniaethau o fwy na 5.7% rhwng arolygon Cymru a'r DU 2009, a gwahaniaethau o 6.6% neu'n fwy

[1] http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-5zyl9w

rhwng arolwg Cymru 2009 ac arolygon blaenorol yng Nghymru, yn ystadegol arwyddocaol.

Dangosir y canlyniadau fel canrannau. Mae'r rhain wedi'u talgrynnu'n unigol, felly mae'n bosibl na fydd y cyfanswm yn union bob tro.

1.4 Dadansoddiad atchweliad

Mae adrannau 'cymariaethau demograffig-gymdeithasol' a 'chymariaethau daearyddol' yr adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau dadansoddiad atchweliad lluosnewidyn. Ceir manylion pellach am y newidynnau a ddefnyddiwyd yn Atodiad 1: Trawstoriadau a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi ac Atodiad 2: Matrics cydberthyniad o'r newidynnau a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi.

Mae'r dadansoddiad atchweliad lluosnewidyn yn archwilio'r berthynas rhwng atebion a phriodoleddau demograffig-gymdeithasol a daearyddol. Mae'r model yn ceisio adnabod cyfres o newidynnau eglurhaol (demograffig-gymdeithasol a daearyddol) sy'n cyfrif am gyfran fawr o amrywiant y newidyn ymateb dan sylw. I ddechrau mae'r model yn cynnwys yr holl newidynnau ac wedyn mae'n dileu'r newidyn sy'n cael yr effaith leiaf ar yr amrywiant, gan adael y newidynnau mwyaf arwyddocaol yn unig.

Dim ond y canlyniadau sy'n deillio o'r modelau atchweliad sy'n cael eu hadrodd yn yr adrannau daearyddol a demograffig-gymdeithasol. Cafodd pob rhanbarth ei mewnbynnu i'r model fel newidyn ar wahân. Felly, dim ond y canlyniadau o'r rhanbarthau hynny a nodwyd yn rhai pwysig yn y model sy'n cael eu hadrodd (e.e. os dangosir bod Canolbarth/Gorllewin Cymru yn bwysig, ni amlygir y canlyniadau o'r rhanbarthau eraill). Yn yr un modd, cafodd y lefel wledigrwydd ei rhoi fel tri newidyn ffug i nodi a oedd y lleoliad yn drefol, yn wledig neu'n drefol/gwledig cymysg.

Oni nodir yn wahanol, nid yw'r ymatebwyr a atebodd 'Ddim yn gwybod' wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad atchweliad.

Mae'n bosibl nad oedd rhai o'r newidynnau a ystyriwyd yn bwysig yn y canlyniadau atchweliad wedi ymddangos yn bwysig yn y dadansoddiad cychwynnol oherwydd efallai bod newidyn cydberthnasol wedi bod yn dylanwadu ar ganlyniadau o'r cyfeiriad arall. Er enghraifft, mae yna gydberthynas gryf rhwng oed a bod unrhyw blant yn y cartref; efallai bod y gwahaniaethau cychwynnol ar gyfer y rhai â phlant a'r rhai heb blant yn y cartref wedi ymddangos yn sylweddol, ond gallai'r atchweliad fod wedi dangos esboniad gwell ar sail oedran.

2. Manteision ac anfanteision coedwigaeth

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis manteision ac anfanteision o restrau penodol i weld sut y mae coetiroedd yn eu hymyl nhw yn fanteisiol neu'n anfanteisiol i'r gymuned leol.

2.1 Manteision Coedwigaeth

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis, o restr o fanteision posibl, sut y mae'r coetiroedd yn eu hymyl nhw o fudd i'r gymuned leol.

Tabl 1: P'un a yw'r ymatebydd yn credu bod y coetiroedd yn ei ymyl yn cynnig manteision i'r gymuned leol ai peidio (%)

	2005	2009
Maent yn darparu lleoedd i fywyd gwyllt fyw	64	81
Maent yn darparu mannau hamdden (fel cerdded, beicio a marchogaeth)	52	72
Maent yn gwella'r dirwedd	54	71
Maent yn darparu lleoedd i ymlacio a rhyddhau straen	42	61
Gall ysgolion lleol a grwpiau addysgol eraill eu defnyddio	46	56
Maent yn hygyrch i bawb yn y gymuned	35	54
Maent yn helpu i ddenu ymwelwyr i'r ardal [1]	44	54
Maent yn tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer, gan arafu'r newid yn yr hinsawdd	--	51
Maent yn helpu i leihau llygredd aer a sŵn	32	45
Maent yn creu lleoliadau dymunol ar gyfer datblygiadau o gwmpas y gymuned	27	42
Maent yn cynnig mantais o wybod eu bod yno	24	41
Maent yn darparu coed yn danwydd adnewyddadwy	18	32
Maent yn cefnogi'r economi lleol	20	26
Maent yn rhoi'r cyfle i bobl yn y gymuned gydweithio â'i gilydd [2]	20	26
O leiaf un fantais	88	96

Sail: Pob ymatebydd yng - Nghymru 2009 (1,002), Cymru 2005 (1,001)

SYLWCH: Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn

1-Y geiriad yn arolwg 2005 oedd 'Maent yn helpu i ddenu twristiaid i'r ardal'

2-Y geiriad yn arolwg 2005 oedd 'Maent yn rhoi rhywbeth y gall pobl yn y gymuned gydweithio â'i gilydd arno'

Ar y cyfan, roedd cynnydd yng nghyfran yr ymatebwyr (96%) a oedd yn credu bod y coetiroedd yn eu hymyl nhw yn darparu o leiaf un fantais i'r gymuned leol o gymharu ag yn 2005 (88%). Gan yr ychwanegwyd pwnc newydd yn 2009, mae angen cymharu'r un pynciau rhwng y blynyddoedd. Pe byddem yn tynnu 'maent yn tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer, gan arafu'r newid yn yr hinsawdd' o ganlyniadau 2009, 96% o hyd yw cyfran yr ymatebwyr sy'n nodi o leiaf un fantais.

Roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o ddweud bod y coetiroedd yn eu hymyl nhw o fudd i'r gymuned leol gan eu bod 'yn darparu lleoedd i fywyd gwyllt fyw' (81%), wedi'i ddilyn gan 'maent yn darparu mannau hamdden (fel cerdded, beicio a marchogaeth)' (72%) ac 'maent yn gwella'r dirwedd' (71%). Roedd chwech o bob deg (61%) o'r farn bod coetiroedd yn 'darparu lleoedd i ymlacio a rhyddhau straen'. Yr ymateb lleiaf cyffredin oedd 'maent yn rhoi'r cyfle i bobl yn y gymuned gydweithio â'i gilydd' ac 'maent yn cefnogi'r economi lleol' (26%).

Cymariaethau daearyddol

Mae Tabl 2 yn darparu dadansoddiad rhanbarthol o'r 5 mantais fwyaf y mae ymatebwyr yn credu y mae coetiroedd yn eu darparu ar gyfer y gymuned leol. Roedd ymatebwyr o Ogledd Cymru yn fwy tebygol na'r rheiny mewn rhanbarthau eraill i gredu bod coetiroedd lleol yn darparu o leiaf un fantais i'r gymuned leol.

Tabl 2: P'un a yw'r ymatebydd yn credu bod y coetiroedd yn ei ymyl yn cynnig manteision i'r gymuned leol ai peidio (%), yn ôl rhanbarth

	Gogledd Cymru	De Orllewin Cymru / Y Canolbarth	De Cymru	De Ddwyrain Cymru	Cymru
Maent yn darparu lleoedd i fywyd gwyllt fyw	93	84	81	67	81
Maent yn darparu mannau hamdden (fel cerdded, beicio a marchogaeth)	74	77	72	64	72
Maent yn gwella'r dirwedd	77	73	72	63	71
Maent yn darparu lleoedd i ymlacio a rhyddhau straen	63	69	59	50	61
Gall ysgolion lleol a grwpiau addysgol eraill eu defnyddio	61	63	59	38	56
O leiaf un fantais	100	95	95	94	96

Sail: Pob ymatebydd yng Nghymru 2009 (1,002)

SYLWCH: Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn

Roedd ymatebwyr o Ogledd Cymru yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn 'darparu lleoedd i fywyd gwyllt fyw' (93%) tra'r oedd y rheiny o Dde Ddwyrain Cymru yn llai tebygol (67%) o ddweud hyn. Roedd ymatebwyr o Dde Ddwyrain Cymru hefyd yn llai

tebygol o ddweud eu bod yn 'darparu mannau hamdden (fel cerdded, beicio, marchogaeth)' (64%).

Roedd yr ymatebwyr hynny o Dde Ddwyrain Cymru yn llai tebygol o ddweud bod coetiroedd o fudd gan eu bod yn 'gwella'r dirwedd' neu oherwydd 'gall ysgolion lleol a grwpiau addysgol eraill eu defnyddio' o'u cymharu ag ymatebwyr mewn rhanbarthau eraill.

Roedd ymatebwyr o Dde Orllewin/Canolbarth Cymru yn fwy tebygol o ddweud bod coetiroedd yn 'darparu lleoedd i ymlacio a rhyddhau straen' (69%) na'r rheiny o ranbarthau eraill, tra'r oedd y rheiny o ardaloedd trefol (56%) yn llai tebygol o ddweud hyn na'r rheiny o ardaloedd eraill.

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Mae'r canlyniadau canlynol yn nodi, yn gyffredinol ac ar gyfer y pum mantais fwyaf y mae coetiroedd yn eu cynnig i'r gymuned leol, y newidynnau hynny a amlygwyd yn arwyddocaol yn y model atchweliad.

Ymatebwyr a ddywedodd fod o leiaf un fantais, Cymru yn gyffredinol 96%:

- **Grŵp ethnig** – gwyn 96%, nid yn wyn 85%.

Ymatebwyr a ddywedodd 'Maent yn darparu lleoedd i fywyd gwyllt fyw', Cymru yn gyffredinol 81%:

- **Grŵp ethnig** – gwyn 82%, nid yn wyn 61%;
- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 84%, C2DE 79%.

Ymatebwyr a ddywedodd 'Maent yn darparu mannau hamdden (fel cerdded, beicio, marchogaeth', Cymru yn gyffredinol 72%:

- **Mynegai Amddifadedd** –10% mwyaf difreintiedig (82%), arall (70%);
- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 77%, C2DE 68%;
- **Afiechyd/anabledd hirdymor** – gydag afiechyd/anabledd hirdymor 75%, heb afiechyd/anabledd hirdymor 71%;
- **Statws gwaith** – gweithio 74%, ddim yn gweithio 69%;
- **Grŵp ethnig –** gwyn 73%, nid yn wyn 41%.

Ymatebwyr a ddywedodd 'Maent yn gwella'r dirwedd', Cymru yn gyffredinol 71%:

- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 76%, C2DE 68%.

Ymatebwyr a ddywedodd 'Maent yn darparu lleoedd i ymlacio a rhyddhau straen', Cymru yn gyffredinol 61%:

- **Mynegai Amddifadedd** –10% mwyaf difreintiedig (71%), arall (59%);
- **Gradd gymdeithasol** -ABC1 66%, C2DE 56%;
- **Afiechyd/anabledd hirdymor** – gydag afiechyd/anabledd hirdymor 66%, heb afiechyd/anabledd hirdymor 59%;
- **Siaradwyr Cymraeg –** siaradwyr Cymraeg 69%, di-Gymraeg 57%.

Ymatebwyr a ddywedodd 'Gall ysgolion lleol a grwpiau addysgol eraill eu defnyddio', Cymru yn gyffredinol 56%:

- **Mynegai Amddifadedd** –10% mwyaf difreintiedig (66%), arall (54%);
- **Gradd gymdeithasol** -ABC1 61%, C2DE 52%;
- **Siaradwyr Cymraeg –** siaradwyr Cymraeg 65%, di-Gymraeg 54%;
- **Plant** – o leiaf un plentyn yn y cartref 61%; dim plant 54%.

2.2 Anfanteision Coedwigaeth

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis o restr, pa faterion yn ymwneud â choetiroedd yr oeddent yn credu sydd o anfantais i'r gymuned leol. Roedd pedwar o bob deg o'r ymatebwyr (40%) o'r farn bod o leiaf un mater yn ymwneud â choetiroedd yn gwneud hyn.

Tabl 3: P'un a oedd yr ymatebydd yn credu bod y coetiroedd yn ei ymyl o anfantais i'r gymuned leol ai peidio (%)

	2009
Mae'r coetiroedd yn ein hymyl ni yn darparu lle ar gyfer gweithgarwch troseddol	17
Ni allwn reoli'r hyn sy'n digwydd yn ein coetiroedd lleol	11
Mae lorïau coed yn gwneud i mi deimlo'n anniogel wrth gerdded/gyrru ar y ffyrdd	9
Nid yw coetiroedd yn darparu swyddi lleol – defnyddir contractwyr o fannau eraill	8
Mae lorïau coed/ymwelwyr â choetiroedd yn gwneud y ffyrdd yn brysur	8
Ni ellir cael mynediad at y coetiroedd yn ein hymyl ni	4
Mae'n anodd iawn cael coed tân o'n coetiroedd lleol	4
Nid yw'r coetiroedd yn ein hymyl ni yn lleoedd braf i ymweld â nhw	3
Mae gweithrediadau coetir ac ymwelwyr yn creu llygredd sŵn	3
Nid yw'r coetiroedd yn ein hymyl ni yn dda ar gyfer bywyd gwyllt	3
Mae rheoli coetiroedd yn llygru'r aer/dŵr/pridd	3
Mae gweithrediadau coetir yn creu carbon deuocsid gan wneud y newid yn yr hinsawdd yn waeth	2
Mae coetiroedd yn rhwystro datblygiadau o gwmpas y gymuned	2
Mae coetiroedd yn gwneud ein tirwedd yn waeth	2
O leiaf un anfantais	40

Sail: Pob ymatebydd yng Nghymru 2009 (1,002)

SYLWCH: Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn

Roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn cynnwys 'mae'r coetiroedd yn ein hymyl ni yn darparu lle ar gyfer gweithgarwch troseddol' (17%), 'ni allwn reoli'r hyn sy'n digwydd yn ein coetiroedd lleol' (11%) ac 'mae lorïau coed yn gwneud i mi deimlo'n anniogel wrth gerdded/gyrru ar y ffyrdd' (9%).

Cymariaethau daearyddol

Roedd ymatebwyr o Dde Orllewin/Canolbarth Cymru yn llai tebygol o fynegi o leiaf un mater yn ymwneud â choetiroedd sydd o anfantais i'r gymuned leol (28%) na'r rheiny o ranbarthau eraill.

Roedd un o bob deg o'r ymatebwyr o Dde Orllewin/Canolbarth Cymru (9%) a Gogledd Cymru (12%) o'r farn bod y 'coetiroedd yn ein hymyl ni yn darparu lle ar gyfer gweithgarwch troseddol' ac yn llai tebygol na'r rheiny yn y ddau ranbarth arall i ddweud hynny. Roedd ymatebwyr o Dde Cymru (17%) a Gogledd Cymru (12%) yn fwy tebygol o ddweud 'ni allwn reoli'r hyn sy'n digwydd yn ein coetiroedd lleol'.

Roedd ymatebwyr o Dde Cymru yn fwy tebygol o ddweud 'mae lorïau coed yn gwneud i mi deimlo'n anniogel wrth gerdded/gyrru ar y ffyrdd' (13%) ac ymatebwyr o Dde Ddwyrain Cymru oedd y lleiaf tebygol o ddweud hyn (2%).

Tabl 4: P'un a oedd yr ymatebydd yn credu bod y coetiroedd yn ei ymyl o anfantais i'r gymuned leol ai peidio (%), yn ôl rhanbarth

	Gogledd Cymru	De Orllewin / Canolbarth Cymru	De Cymru	De Ddwyrain Cymru	Cymru
Mae'r coetiroedd yn ein hymyl ni yn darparu lle ar gyfer gweithgarwch troseddol	12	9	26	22	17
Ni allwn reoli'r hyn sy'n digwydd yn ein coetiroedd lleol	12	6	17	9	11
Mae lorïau coed yn gwneud i mi deimlo'n anniogel wrth gerdded/gyrru ar y ffyrdd	11	11	13	2	9
Nid yw coetiroedd yn darparu swyddi lleol – defnyddir contractwyr o fannau eraill	9	5	7	11	8
Mae lorïau coed/ymwelwyr â choetiroedd yn gwneud y ffyrdd yn brysur	7	8	13	4	8
O leiaf un anfantais	44	28	44	46	40

Sail: Pob ymatebydd yng Nghymru 2009 (1,002)

SYLWCH: Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn

Dim ond 5% o'r ymatebwyr o Dde Orllewin/Canolbarth Cymru oedd o'r farn 'nid yw coetiroedd yn darparu swyddi lleol – defnyddir contractwyr o fannau eraill' tra'r oedd ymatebwyr o Dde Cymru yn fwyaf tebygol o ddweud 'mae lorïau coed/ymwelwyr â choetiroedd yn gwneud y ffyrdd yn brysur' (13%).

Roedd ymatebwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn llai tebygol o ddweud bod 'coetiroedd yn ein hymyl ni yn darparu lle ar gyfer gweithgarwch troseddol' (7%), o'u cymharu ag 19% o ardaloedd eraill (gan gynnwys ardaloedd trefol ac ardaloedd trefol/gwledig cymysg). Roeddent hefyd yn llai tebygol o ddweud 'ni allwn reoli'r hyn sy'n digwydd yn ein coetiroedd lleol' (7%), o'u cymharu â 12% o ardaloedd eraill.

Roedd ymatebwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o ddweud 'mae lorïau coed/ymwelwyr â choetiroedd yn gwneud y ffyrdd yn brysur' (13%) ac 'mae lorïau coed yn gwneud i mi deimlo'n anniogel wrth gerdded/gyrru ar y ffyrdd' (18%).

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Mae'r canlyniadau canlynol yn nodi'r newidynnau hynny a amlygwyd yn rhai arwyddocaol yn y model atchweliad ar gyfer materion yn ymwneud â choetiroedd sydd o anfantais i'r gymuned leol.

Ymatebwyr a ddywedodd fod o leiaf un anfantais, Cymru yn gyffredinol 40%:

- **Mynegai Amddifadedd** –10% mwyaf difreintiedig (34%), arall (41%);
- **Oedran** – 16-34 (45%), 35+ (37%).
- **Afiechyd/anabledd hirdymor** – gydag afiechyd/anabledd hirdymor 44%, heb afiechyd/anabledd hirdymor 38%;

Ymatebwyr a ddywedodd 'Mae'r coetiroedd yn ein hymyl ni yn darparu lle ar gyfer gweithgarwch troseddol'*, Cymru yn gyffredinol 17%:*

- **Oedran** – 16-34 (23%), 35+ (14%).

Ymatebwyr a ddywedodd 'Ni allwn reoli'r hyn sy'n digwydd yn ein coetiroedd lleol'*, Cymru yn gyffredinol 11%:*

- **Oedran** – 16-34 (15%), 35+ (9%).

Ymatebwyr a ddywedodd 'Mae lorïau coed/ymwelwyr â choetiroedd yn gwneud y ffyrdd yn brysur'*, Cymru yn gyffredinol 8%:*

- **Plant** – o leiaf un plentyn yn y cartref 10%; dim plant 7%.

2.3 Tirwedd Leol

Er mwyn mesur barn y cyhoedd am dirweddau lleol, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddatgan y nodweddion y maent yn eu hoffi ac nad ydynt yn eu hoffi yn eu tirwedd leol o'r un rhestr benodol, gyda'r opsiwn o enwi nodweddion eraill yn ôl yr angen.

2.3.1 Nodweddion ffafriol y dirwedd leol

Y nodweddion mwyaf cyffredin yr oedd ymatebwyr yn eu hoffi oedd 'bryniau/mynyddoedd agored neu weundiroedd' (65% o'r ymatebwyr), yna 'coed' (63%), 'mannau agored (e.e. parciau) (61%), 'coetir neu goedwig' (59%) a 'dŵr (môr, afonydd, llynnoedd a chamlesi)' (56%).

Ffigur 1: Yr hyn y mae'r ymatebwyr yn ei hoffi am eu tirwedd leol (%)



Sail: Pob ymatebydd yng Nghymru 2009 (1,002)

SYLWCH: Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn

Cymariaethau daearyddol

Roedd ymatebwyr o Dde Ddwyrain Cymru yn llai tebygol na'r rheiny o ranbarthau eraill i ddweud eu bod yn hoffi 'Bryniau/Mynyddoedd agored neu Weundiroedd' (45%). Hefyd, roedd y rheiny o ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol a gwledig cymysg yn fwy tebygol o ddatgan y nodwedd hon (84% a 78% yn ôl eu trefn).

Roedd ymatebwyr o Ogledd Cymru yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn hoffi 'coed' yn eu tirwedd leol (74%) o'u cymharu ag ymatebwyr mewn rhanbarthau eraill. Hefyd, roedd ymatebwyr o ardaloedd gwledig a threfol cymysg yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn hoffi 'coed' (68%) tra'r oedd y rheiny o ardaloedd trefol yn llai tebygol o roi'r ymateb hwn (56%).

Roedd ymatebwyr o Ogledd Cymru a De Orllewin/Canolbarth Cymru yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn hoffi 'mannau agored (e.e. parciau)' yn eu tirwedd leol o'u cymharu â'r rhanbarthau eraill.

Roedd ymatebwyr o Dde Ddwyrain Cymru yn llai tebygol na'r rheiny o ranbarthau eraill i ddweud eu bod yn hoffi 'Coetir neu Goedwig' (40%). Roedd y rheiny mewn ardaloedd trefol hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn hoffi'r nodwedd hon o'r dirwedd (51%).

Hefyd, roedd ymatebwyr o Dde Ddwyrain Cymru yn llai tebygol o ddweud eu bod yn hoffi 'dŵr' yn eu tirwedd leol (38%) ynghyd â'r rheiny o ardaloedd trefol (50%) ac ardaloedd gwledig a threfol cymysg (52%).

Tabl 5: Yr hyn y mae'r ymatebwyr yn ei hoffi am eu tirwedd leol, yn ôl rhanbarth (%)

	Gogledd Cymru	De Orllewin / Canolbarth Cymru	De Cymru	De Ddwyrain Cymru	Cymru
Bryniau/Mynyddoedd Agored neu Weundiroedd	80	71	63	45	65
Coed	74	66	57	55	63
Mannau agored (e.e. parciau)	68	67	53	54	61
Coetir neu goedwig	69	65	58	40	59
Dŵr (môr, afonydd, llynnoedd, camlesi)	64	72	48	48	56

Sail: Pob ymatebydd yng Nghymru 2009 (1,002)

SYLWCH: Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Mae'r canlyniadau canlynol yn nodi'r newidynnau hynny a amlygwyd yn rhai arwyddocaol yn y model atchweliad, ar gyfer pum nodwedd fwyaf poblogaidd y dirwedd leol:

Ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn hoffi'r 'Bryniau/Mynyddoedd Agored neu Weundiroedd', Cymru yn gyffredinol 65%:

- **Afiechyd/anabledd hirdymor** – gydag afiechyd/anabledd hirdymor 71%, heb afiechyd/anabledd hirdymor 63%;
- **Statws gwaith** – gweithio 68%, ddim yn gweithio 63%;
- **Yr Iaith Gymraeg** – siaradwyr Cymraeg 76%, di-Gymraeg 60%;
- **Crefydd** – Cristnogol 69%, ddim yn Gristnogol 59%.

Ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn hoffi'r 'Coed', Cymru yn gyffredinol 63%:

- **Oedran** – 16-34 (56%), 35+ (66%);
- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 68%, C2DE 59%;
- **Crefydd** – Cristnogol 67%, ddim yn Gristnogol 57%.

Ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn hoffi 'Mannau agored (e.e. parciau)', Cymru yn gyffredinol 61%:

- **Mynegai Amddifadedd** –10% mwyaf difreintiedig (70%), arall (59%);
- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 66%, C2DE 57%;
- **Crefydd** – Cristnogol 65%, ddim yn Gristnogol 55%.

Ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn hoffi 'Coetir neu Goedwig', Cymru yn gyffredinol 59%:

- **Mynegai Amddifadedd** –10% mwyaf difreintiedig (69%), arall (57%);
- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 64%, C2DE 53%;
- **Afiechyd/anabledd hirdymor** – gydag afiechyd/anabledd hirdymor 63%, heb afiechyd/anabledd hirdymor 57%;
- **Statws gwaith** – gweithio 61%, ddim yn gweithio 56%;
- **Yr Iaith Gymraeg** – siaradwyr Cymraeg 67%, di-Gymraeg 54%.

Ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn hoffi'r 'Dŵr (môr, afonydd, llynnoedd, camlesi)', Cymru yn gyffredinol 56%:

- **Mynegai Amddifadedd** –10% mwyaf difreintiedig (70%), arall (53%);
- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 62%, C2DE 51%;
- **Yr Iaith Gymraeg** – siaradwyr Cymraeg 66%, di-Gymraeg 51%.

2.3.2 Nodweddion anffafriol y dirwedd leol

Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd tua dau draean o'r ymatebwyr (69%) eu bod yn casáu 'dim byd' am eu tirwedd leol. Dywedodd 13% arall eu bod yn casáu'r 'adeiladau'.

Ffigur 2: Yr hyn y mae ymatebwyr yn ei gasáu am eu tirwedd leol (%)



Sail: Pob ymatebydd yng Nghymru 2009 (1,002)

SYLWCH: Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn

Cymariaethau daearyddol

Roedd ymatebwyr o Dde Orllewin/Canolbarth Cymru yn fwy tebygol na'r rheiny yng ngweddill y wlad i ddweud eu bod yn casáu 'dim byd' am eu tirwedd leol (75%). Ar ben hynny, roedd y rheiny mewn ardaloedd trefol yn llai tebygol o ddweud eu bod yn casáu 'dim byd' (65%).

Roedd ymatebwyr o ardaloedd trefol (17%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn casáu 'adeiladau (eglwysi, tai ac ati) yn eu tirwedd leol o'u cymharu â 7% yn unig o'r ymatebwyr o ardaloedd eraill.

Tabl 6: Yr hyn y mae ymatebwyr yn ei gasáu am eu tirwedd leol, yn ôl rhanbarth (%)

	Gogledd Cymru	De Orllewin / Canolbarth Cymru	De Cymru	De Ddwyrain Cymru	Cymru
Dim byd	68	75	69	61	69
Adeiladau (eglwysi, tai ac ati)	11	10	14	20	13

Sail: Pob ymatebydd yng Nghymru 2009 (1,002)

SYLWCH: Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Ar gyfer y ddau ymateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn, amlygir isod y newidynnau a oedd yn ymddangos yn arwyddocaol yn y dadansoddiad:

Ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn casáu 'dim byd', Cymru yn gyffredinol 69%:

- **Oedran** – 16-54 (64%), 55+ (74%);
- **Crefydd** – Cristnogol 72%, ddim yn Gristnogol 63%.

Ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn casáu'r 'Adeiladau (eglwysi, tai ac ati)', Cymru yn gyffredinol 13%:

- **Oedran** – 16-34 (18%), 35+ (12%);
- **Statws gwaith** – gweithio 16%, ddim yn gweithio 11%.

3. Coed yn danwydd

3.1 Defnyddio Coed yn Danwydd

Fel yn 2007, gofynnwyd i'r ymatebwyr a ydynt fyth yn defnyddio coed yn danwydd yn eu cartrefi, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â thanwyddau eraill. Mae cyfran yr ymatebwyr a adroddodd eu bod yn defnyddio coed yn danwydd yn sylweddol uwch yn 2009 (14%) o'i chymharu ag yn 2007 (6%), er nad yw'n sylweddol uwch nag yn 2005 (11%).

Ffigur 3: Defnyddio coed yn danwydd yn y cartref (%)



Pob ymatebydd yng Nghymru 2009 (1,002), Cymru 2007 (953), Cymru 2005 (1,001), Yr Alban 2009 (1,040), Yr Alban 2007 (1,007), Yr Alban 2005 (1,009), DU 2009 (2,011), DU 2007 (4,000)

O'r rheiny sy'n defnyddio coed yn danwydd, adroddwyd y canlynol hefyd:

- Roedd tua phedwar o bob deg o'r ymatebwyr (43%) yn cael eu coed ychydig fagiau ar y tro, roedd 39% yn casglu eu coed eu hunain, roedd 11% yn ei dderbyn fesul llwyth lori/fan ac roedd 4% yn ei gael gan gyfeillion neu deulu;
- Byddai dros hanner yr ymatebwyr a oedd yn defnyddio coed yn danwydd yn ystyried eu hunain yn ddefnyddwyr rheolaidd (51%) tra dywedodd y gweddill (48%) eu bod yn ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd;
- O'r rheiny sy'n defnyddio coed, dywedodd pumed ohonynt (18%) eu bod yn ei ddefnyddio fel y prif danwydd ar gyfer gwresogi eu cartrefi, tra bod y lleill yn defnyddio rhywbeth arall fel nwy (31%), olew (23%) neu lo (22%) yn bennaf.

Cymariaethau daearyddol

Roedd ymatebwyr o ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio coed yn danwydd (38%) na'r rheiny mewn ardaloedd eraill (7%).

Ffigur 4: Defnyddio coed yn danwydd yn y cartref, yn ôl rhanbarth (%)



Sail: Pob ymatebydd (1,002)

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Ar gyfer y cwestiwn hwn, amlygir isod y newidynnau y dangoswyd eu bod yn rhai arwyddocaol yn y dadansoddiad:

Ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio coed yn danwydd yn eu cartrefi, Cymru yn gyffredinol 14%:

- **Yr Iaith Gymraeg** – siaradwyr Cymraeg 21%, di-Gymraeg 10%;
- **Oedran** – 16-34 (10%), 35+ (15%).

3.2 Rhesymau dros beidio â defnyddio Coed yn Danwydd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn defnyddio coed yn danwydd roi'r prif reswm dros beidio â gwneud hynny. Dywedodd pedwar o bob deg o'r ymatebwyr (40%) nad ydynt yn defnyddio coed yn danwydd yn eu cartrefi gan eu bod yn 'hapus â'r system bresennol'. Dywedodd 35% arall nad yw'n ymarferol ar gyfer yr eiddo a dywedodd 8% nad oeddent erioed wedi ystyried ei ddefnyddio yn danwydd.

Ffigur 5: Prif resymau dros beidio â defnyddio coed yn danwydd (%)



Sail: Ymatebwyr nad ydynt yn defnyddio coed yn danwydd (867)

4. Cynnyrch coed

4.1 Prynu cynnyrch coed

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi prynu unrhyw gynnyrch coed o restr benodol yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (56%) wedi prynu cynnyrch coed a'r cynnyrch mwyaf cyffredin a brynwyd oedd 'dodrefn' (30%), 'pren arall ar gyfer prosiectau crefftau'r cartref' (17%), 'lloriau pren' (13%) a 'dodrefn/offer i'r ardd' (12%). Roedd 10 y cant o'r ymatebwyr wedi prynu drysau, lloriau estyll/ffensys a theganau wedi'u gwneud o goed.

Ffigur 6: Cynnyrch coed a brynwyd yn ystod y 12 mis diwethaf (%)



Sail: Pob ymatebydd yng Nghymru 2009 (1,002)

SYLWCH: Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn

Cymariaethau daearyddol

Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng rhanbarthau o ran prynu cynnyrch coed.

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Mae'r newidynnau demograffig-gymdeithasol a oedd yn arwyddocaol yn y dadansoddiad wedi'u hamlygu isod:

Ymatebwyr a oedd wedi prynu o leiaf un cynnyrch coed yn ystod y 12 mis diwethaf, Cymru yn gyffredinol 56%:

- **Gradd gymdeithasol** - ABC1 61%; C2DE 51%;
- **Statws priodasol** – yn briod 63%, ddim yn briod 48%;
- **Oedran –** 16-54 (61%), 55+ (45%).

4.2 Ymwybyddiaeth o Gyrff Ardystio

Mae'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) a'r Rhaglen ar gyfer Cymeradwyo Cynlluniau Ardystio Coedwigoedd (PEFC) yn gynlluniau sy'n ardystio coetiroedd, yn ogystal â choed a chynnyrch coed sy'n deillio o goetiroedd sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae gan bob cynllun logo, sy'n cael ei arddangos ar nwyddau ardystiedig.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi gweld logos FCS a PEFC ar gynnyrch coed. Roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o fod wedi gweld logo FSC yn 2009 (36%) na logo PEFC (12%). Mae lefelau adnabyddiaeth wedi cynyddu ers 2005 ar gyfer logo FSC (25%) ond nid ar gyfer logo PEFC (12%).

Roedd ymatebwyr a oedd wedi prynu o leiaf un cynnyrch wedi'i wneud o goed yn ystod y 12 mis diwethaf yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi gweld symbolau ardystio FSC (43%) na'r rheiny nad oeddent wedi prynu o leiaf un cynnyrch coed (27%).

Tabl 7: Ymwybyddiaeth o 'symbolau ardystio' ar gynnyrch coed (%)

	Gogledd Cymru	De Orllewin/ Canolbarth Cymru	De Cymru	De Ddwyrain Cymru	**Cymru 2009**	Cymru 2005
FSC	39	35	37	31	**36**	25
PEFC	8	11	15	15	**12**	12

Sail: Pob ymatebydd yng Nghymru Wales 2009 (1,002); 2005 (1,001)

Cymariaethau daearyddol

Roedd ymatebwyr o Dde Ddwyrain Cymru (31%) yn sylweddol llai tebygol o fod wedi gweld logo FSC o'u cymharu ag ymatebwyr mewn rhanbarthau eraill. Roedd y rheiny o Ogledd Cymru yn llai tebygol na'r rheiny o ranbarthau eraill i adnabod logo PEFC (8%).

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Ar gyfer pob rhan o'r cwestiwn hwn, mae'r newidynnau a oedd yn arwyddocaol yn y dadansoddiad wedi'u hamlygu isod:

Ymatebwyr a oedd wedi gweld logo FSC ar gynnyrch coed, Cymru yn gyffredinol 36%:

- **Oedran** – 16-54 (42%), 55+ (24%);
- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 43%, C2DE 29%;
- **Statws gwaith** – gweithio 43%, ddim yn gweithio 27%;
- **Yr Iaith Gymraeg** – siaradwr Cymraeg 43%, di-Gymraeg 32%;
- **Statws priodol** – yn briod 41%, ddim yn briod 30%.

Ymatebwyr a oedd wedi gweld logo PEFC ar gynnyrch coed, Cymru yn gyffredinol 12%:

- **Rhyw** – gwryw 16%, benyw 9%.

5. Hamdden a choetiroedd

Mae strategaeth 'Coetiroedd i Gymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r rhesymwaith y dylai coetiroedd fod yn hygyrch i'r cyhoedd at ddibenion dysgu am goetiroedd a'u cynnyrch a hyrwyddo iechyd trwy hamddena mewn coetiroedd. Mae'r adran hon yn ymdrin â chwestiynau sy'n ymwneud â hamddena mewn coetiroedd.

5.1 Ymweliadau â choetiroedd

Dywedodd tua dau draean (63%) fod coetir neu goedwig y gallant fynd iddo'n hawdd heb ddefnyddio car neu fath arall o gludiant.

Tabl 8: Cyfran yr ymatebwyr sy'n gallu cyrraedd coetir neu goedwig heb ddefnyddio car neu fath arall o gludiant (%)

	Gogledd Cymru	De Orllewin/ Canolbarth Cymru	De Cymru	De Ddwyrain Cymru	**Cymru 2009**	Cymru 2005
Coetir hygyrch	68	65	59	59	**63**	59

Sail: Pob ymatebydd - Cymru 2009 (1,002), Cymru 2005 (1,001)

Cymariaethau daearyddol

Roedd ymatebwyr o Ogledd Cymru (68%) yn fwy tebygol na'r rheiny o ranbarthau eraill i fod â mynediad at goetir neu goedwig heb ddefnyddio car neu fath arall o gludiant cyhoeddus.

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Mae'r newidynnau demograffig-gymdeithasol a oedd yn arwyddocaol yn y dadansoddiad wedi'u hamlygu isod:

Ymatebwyr sydd â mynediad at goetir neu goedwig heb ddefnyddio car neu fath arall o gludiant cyhoeddus, Cymru yn gyffredinol 63%:

- **Oedran –** 16-54 68%, 55+ 54%.

5.2 Amlder ymweliadau â choetiroedd neu goedwigoedd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a ddywedodd fod ganddynt fynediad at goetiroedd neu goedwigoedd heb ddefnyddio car neu fath arall o gludiant cyhoeddus pa mor aml y maent yn ymweld â'r coetiroedd neu'r coedwigoedd hyn. O'r ymatebwyr a oedd â mynediad heb ddefnyddio car neu fath arall o gludiant cyhoeddus, adroddodd ychydig dros hanner ohonynt (54%) eu bod yn ymweld â'r coetiroedd neu'r coedwigoedd hyn o leiaf unwaith y mis, tra'r oedd 27% yn ymweld â nhw o leiaf unwaith yr wythnos.

Ffigur 7: Amlder yr ymweliadau â choetiroedd neu goedwigoedd (%)



Sail: Ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt fynediad at goetiroedd heb ddefnyddio car neu fath arall o gludiant cyhoeddus (622)

Cymariaethau daearyddol

O'r ymatebwyr hynny a ddywedodd fod ganddynt fynediad at goetiroedd heb ddefnyddio car neu fath arall o gludiant cyhoeddus, y rheiny yn Ne Ddwyrain Cymru oedd y lleiaf tebygol i ymweld â nhw o leiaf unwaith y mis (43%).

Roedd y rheiny mewn ardaloedd gwledig (36%) yn fwy tebygol nag eraill i ymweld â choetiroedd neu goedwigoedd o leiaf unwaith yr wythnos.

Ffigur 8: Amlder ymweliadau â choetiroedd neu goedwigoedd, yn ôl rhanbarth (%)



Sail: Ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt fynediad at goetiroedd heb ddefnyddio car neu fath arall o gludiant cyhoeddus (622)

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Mae'r newidynnau demograffig-gymdeithasol a oedd yn arwyddocaol yn y dadansoddiad wedi'u hamlygu isod:

Ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt fynediad at goetiroedd neu goedwigoedd heb ddefnyddio car neu gludiant cyhoeddus sy'n ymweld â choetir o leiaf unwaith y mis, Cymru yn gyffredinol 54%:

- **Rhyw** – gwryw 59%, benyw 49%;
- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 62%, C2DE 47%;
- **Mynegai Amddifadedd** –10% mwyaf difreintiedig (66%), arall (51%);
- **Afiechyd/anabledd hirdymor** – gydag afiechyd/anabledd hirdymor 39%, heb afiechyd/anabledd hirdymor 58%;
- **Ethnigrwydd –** gwyn 54%, nid yn wyn 27%.

Ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt fynediad at goetiroedd neu goedwigoedd heb ddefnyddio car neu gludiant cyhoeddus sy'n ymweld â choetir o leiaf unwaith yr wythnos, Cymru yn gyffredinol 27%:

- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 36%, C2DE 20%;
- **Yr Iaith Gymraeg** – siaradwyr Cymraeg 23%, di-Gymraeg 30%.

5.3 Rhesymau dros ddewis ymweld â choetiroedd

Gofynnwyd i bob ymatebydd ddewis o restr pa ffactorau a oedd yn bwysig iddynt wrth ddewis ymweld â choetiroedd.

Y ffactorau pwysicaf a adroddwyd oedd 'llonydd a thawelwch' (65%), 'golygfeydd deniadol' (65%), 'bywyd gwyllt' (60%), ei fod 'yn dda ar gyfer ymarfer corff' (55%) a'i fod 'yn agos/hawdd ei gyrraedd' (53%). 'Amrywiaeth o weithgareddau' oedd y lleiaf tebygol o ddylanwadu ar benderfyniad yr ymatebwyr i ymweld â choetiroedd (21%).

Tabl 9: Ffactorau sy'n bwysig wrth ddewis ymweld â choetiroedd

	2003	2005	**2009**
Llonydd a thawelwch	44	49	**65**
Golygfeydd deniadol	46	48	**65**
Bywyd gwyllt	36	41	**60**
Yn dda ar gyfer ymarfer corff	25	35	**55**
Yn agos/hawdd ei gyrraedd	43	38	**53**
Gwybod bod croeso i ymwelwyr yno	31	30	**48**
Lle da i ymlacio/rhyddhau straen	29	36	**48**
Dim tâl mynediad	24	26	**48**
Amgylchedd diogel	36	36	**48**
Traciau a llwybrau clir a hygyrch[1]	--	--	**47**
Mae croeso i gŵn [1]	--	--	**38**
Gwybod y gallwch ddefnyddio gatiau a chamfeydd gyda'ch grŵp (gan gynnwys coetsis babanod, cŵn, cadeiriau olwyn) [1]	--	--	**33**
Arwyddion clir – yn groesawgar ac yn rhoi cyfarwyddiadau [1]	--	--	**29**
Amrywiaeth o weithgaredd [1]	--	--	**21**

Sail: Pob ymatebydd - 2009 (1,002), 2005 (1,001), 2003 (1,002).

SYLWCH – Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn.

1- Categori newydd yn 2009

Cymariaethau daearyddol

Mae Tabl 10 yn dangos y pum rheswm pwysicaf dros ddewis ymweld â choetiroedd.

Tabl 10: Ffactorau sy'n bwysig wrth ddewis ymweld â choetiroedd, yn ôl rhanbarth (%)

	Gogledd Cymru	De Cymru	De Orllewin/ Canolbarth Cymru	De Ddwyrain Cymru	**Cymru**
Llonydd a thawelwch	74	61	64	62	**65**
Golygfeydd deniadol	72	69	61	58	**65**
Bywyd gwyllt	70	57	62	51	**60**
Yn dda ar gyfer ymarfer corff	62	53	59	44	**55**
Yn agos/hawdd ei gyrraedd	61	55	54	41	**53**

Sail: Pob ymatebydd yng Nghymru 2009 (1,002)

SYLWCH: Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn.

Roedd y rheiny yng Ngogledd Cymru yn fwy tebygol na'r rheiny mewn rhanbarthau eraill i ddweud bod 'Llonydd a thawelwch' yn bwysig iddynt (74%) wrth ddewis coetir i ymweld ag ef.

Ymatebwyr o Ogledd Cymru a De Cymru oedd y mwyaf tebygol o ddweud bod 'golygfeydd deniadol' yn bwysig wrth ddewis ymweld â choetiroedd (72% a 69% yn ôl eu trefn). Roedd y rheiny mewn ardaloedd gwledig a threfol cymysg hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod 'golygfeydd deniadol' yn bwysig, gyda 76% yn cytuno o gymharu â 62% o'r holl ymatebwyr eraill.

Roedd ymatebwyr o ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o ddweud bod 'yn agos/hawdd ei gyrraedd' yn bwysig iddynt wrth ddewis ymweld â choetir (61%).

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Mae'r newidynnau demograffig-gymdeithasol a oedd yn arwyddocaol yn y dadansoddiad wedi'u hamlygu isod:

Ymatebwyr a ddywedodd fod 'llonydd a thawelwch' yn bwysig, Cymru yn gyffredinol 65%:

- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 69%, C2DE 62%;
- **Afiechyd/anabledd hirdymor** – gydag afiechyd/anabledd hirdymor 70%, heb afiechyd/anabledd hirdymor 63%.

Ymatebwyr a ddywedodd fod 'golygfeydd deniadol' yn bwysig, Cymru yn gyffredinol 65%:

- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 69%, C2DE 61%;
- **Yr Iaith Gymraeg** – siaradwyr Cymraeg 71%, di-Gymraeg 62%;
- **Statws priodasol** – yn briod 69%, ddim yn briod 60%.

Ymatebwyr a ddywedodd fod 'bywyd gwyllt' yn bwysig, Cymru yn gyffredinol 60%:

- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 64%, C2DE 57%;
- **Yr Iaith Gymraeg** – siaradwyr Cymraeg 67%, di-Gymraeg 57%;
- **Crefydd** – Cristnogol 64%, ddim yn Gristnogol 53%;
- **Statws priodasol** – yn briod 64%, ddim yn briod 56%;
- **Afiechyd/anabledd hirdymor** – gydag afiechyd/anabledd hirdymor 66%, heb afiechyd/anabledd hirdymor 58%.

Ymatebwyr a ddywedodd fod 'ymarfer corff' yn bwysig, Cymru yn gyffredinol 55%:

- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 58%, C2DE 52%;
- **Ethnigrwydd** – gwyn 55%, nid yn wyn 34%;
- **Plant –** o leiaf un plentyn yn y cartref 60%, dim plant 52%.

6. Ymgysylltu â'r Gymuned

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr yn ymwneud â'r modd y maent yn ymgysylltu â materion yn ymwneud â choetiroedd a choedwigoedd trwy ymgynghoriad cyhoeddus, gweithgareddau dysgu a grwpiau gwirfoddol.

6.1 Ymgynghoriad cyhoeddus

Adroddodd pump y cant o'r ymatebwyr yr ymgynghorwyd â nhw ynghylch cynlluniau i greu, rheoli neu ddefnyddio'r coetiroedd yn eu hardal. Pan ofynnwyd a hoffent gael eu cynnwys mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol, dywedodd tua thraean (32%) o'r ymatebwyr yr hoffent gymryd rhan.

O'r rheiny yr ymgynghorwyd â nhw yn y gorffennol, roedd hanner ohonynt yn teimlo eu bod wedi dylanwadu ar benderfyniadau ar greu, rheoli neu ddefnyddio'r coetiroedd yn eu hardal. O'r rheiny a ddywedodd yr hoffent gael eu cynnwys mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol, dywedodd ychydig dros hanner ohonynt (53%) eu bod y teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau.

Tabl 11: Ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch cynlluniau i greu, rheoli neu ddefnyddio'r coetiroedd yn eu hardal, yn ôl rhanbarth (%)

	Gogledd Cymru	De Orllewin Cymru/ Y Canolbarth	De Cymru	De Ddwyrain Cymru	**Cymru 2009**	Cymru 2007	Cymru 2005
Wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad [1]	9	4	3	3	**5**	4	4
Hoffent gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn y dyfodol[1]	36	33	28	31	**32**	43	19
Yn teimlo y gallant gael dylanwad [2]	60	54	47	50	**53**	-	55

Sail: 1- Pob ymatebydd yng Nghymru 2009 (1,002), 2007 (953), 2005 (1,001)
2- Ymatebwyr a hoffai gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn y dyfodol - 2009 (322), 2005 (194)

Cymariaethau daearyddol

Roedd ymatebwyr o Ogledd Cymru yn fwy tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar gynlluniau i greu, rheoli neu ddefnyddio'r coetiroedd yn eu hardal (9%), ynghyd â'r rheiny a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig (10%).

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Mae'r newidynnau demograffig-gymdeithasol a oedd yn arwyddocaol yn y dadansoddiad wedi'u hamlygu isod:

Ymatebwyr yr ymgynghorwyd â nhw ynghylch cynlluniau ar gyfer y dyfodol, Cymru yn gyffredinol 5%:

- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 7%, C2DE 2%.

Ymatebwyr a hoffai gael eu cynnwys mewn ymgynghoriad ar gynlluniau yn y dyfodol, Cymru yn gyffredinol 32%:

- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 37%, C2DE 28%;
- **Yr Iaith Gymraeg** – siaradwyr Cymraeg 38%, di-Gymraeg 29%;
- **Oedran** – 35-54 (38%), 16-34 a 55+ (29%).

Ymatebwyr a hoffai gael eu cynnwys mewn ymgynghoriad yn y dyfodol ac sy'n teimlo y gallant gael rhywfaint o ddylanwad, Cymru yn gyffredinol 53%:

- **Gradd gymdeithasol** – ABC1 62%, C2DE 44%;
- **Afiechyd/anabledd hirdymor** – gydag afiechyd/anabledd hirdymor 37%, heb afiechyd/anabledd hirdymor 58%.

6.2 Gweithgareddau Dysgu wedi'u Trefnu

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedden nhw neu unrhyw aelod o'u teulu wedi mynychu unrhyw weithgareddau neu ddigwyddiadau dysgu wedi'u trefnu yn ymwneud â choetiroedd yn ystod y 12 mis diwethaf. Nododd un o bob pum ymatebwr (19%) fod hyn yn wir. Gellir dadansoddi hyn ymhellach, gydag 11% wedi mynychu gwibdaith ysgol, 7% wedi mynychu taith dywysedig neu sgwrs, 4% wedi mynychu cwrs neu ddigwyddiad hyfforddi wedi'i drefnu a 3% wedi mynychu digwyddiad plannu coed.

Ffigur 9: Gweithgareddau dysgu coetiroedd a fynychodd ymatebwyr neu aelodau o'u teulu



Sail: Yr holl ymatebwyr yng Nghymru 2009 (1,002)

SYLWER- Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.

Cymariaethau Daearyddol

Roedd chwarter yr ymatebwyr o Ogledd Cymru (26%) wedi mynychu o leiaf un gweithgaredd dysgu yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n uwch na rhanbarthau eraill Cymru.

Tabl 12: Gweithgareddau dysgu coetiroedd a fynychwyd gan ymatebwyr neu aelodau o'u teulu, yn ôl rhanbarth (%)

	Gogledd Cymru	De Orllewin Cymru/ y Canolbarth	De Cymru De Ddwyrain Cymru	**Cymru**
Gwibdaith ysgol	15	11	11	7	**11**
Taith dywysedig neu sgwrs	9	7	4	5	**7**
Cwrs neu ddigwyddiad hyfforddi wedi'i drefnu (fel adeiladu waliau cerrig sych, ffensio, ac ati)	7	4	2	1	**4**
Digwyddiad plannu coed wedi'i drefnu	4	2	3	2	**3**
O leiaf un	26	21	17	15	**19**

Sail: Yr holl ymatebwyr yng Nghymru 2009 (1,002)

SYLWER- Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Caiff y newidynnau demograffig-gymdeithasol y dangoswyd eu bod yn arwyddocaol yn y dadansoddiad eu hamlygu isod:

Ymatebwyr a nododd eu bod nhw neu aelod o'u teulu wedi mynychu o leiaf un gweithgaredd dysgu, Cymru yn gyffredinol 19%:

- **Gradd Gymdeithasol** – ABC1 23%, C2DE 16%;
- **Plant** – o leiaf un plentyn yn y cartref 29%, dim plant 14%;
- **Yr Iaith Gymraeg** – Siarad Cymraeg 24%, ddim yn siarad Cymraeg 17%.

Ymatebwyr a nododd eu bod nhw neu aelod o'u teulu wedi mynychu gwibdaith ysgol, Cymru yn gyffredinol 11%:

- **Plant** – o leiaf un plentyn yn y cartref 21%, dim plant 6%;
- **Yr Iaith Gymraeg** – siarad Cymraeg 15%, ddim yn siarad Cymraeg 9%.

Ymatebwyr a nododd eu bod nhw neu aelod o'u teulu wedi mynychu taith gerdded dywysedig neu sgwrs, Cymru yn gyffredinol 7%:

- **Gradd Gymdeithasol** – ABC1 9%, C2DE 4%.

6.3 Cadwraeth a Gwirfoddoli

Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent wedi cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol sy'n ymwneud â choetiroedd yn ystod y 12 mis diwethaf neu a oeddent yn aelod o grŵp cymunedol sy'n ymwneud â gwarchod a/neu reoli coetiroedd lleol.

At ei gilydd, dywedodd 5% o ymatebwyr ie i un (neu'r ddau) o'r meysydd ymglymiad hyn. Yn unigol, dywedodd 3% eu bod wedi cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol sy'n ymwneud â choetir yn ystod y 12 mis diwethaf a dywedodd 3% eu bod wedi cymryd rhan gyda grŵp cymunedol sy'n ymwneud â gwarchod a/neu reoli coetiroedd lleol.

Tabl 13: Ymatebwyr sydd wedi cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol neu sy'n aelodau o grŵp cymunedol, yn ôl rhanbarth (%)

	Gogledd Cymru	De Orllewin Cymru/ y Canolbarth	De Cymru	De Ddwyrain Cymru	Cymru
Wedi cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol sy'n ymwneud â choetiroedd yn ystod y 12 mis diwethaf	3	4	3	3	3
Aelod o grŵp cymunedol sy'n ymwneud â gwarchod a/neu reoli coetiroedd lleol	4	3	1	1	3
Naill ai wedi cymryd rhan, neu'n aelod (neu'r ddau)	7	5	3	3	5

Sail: Yr holl ymatebwyr yng Nghymru 2009 (1,002)

Cymariaethau daearyddol

Roedd ymatebwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o gymryd rhan naill ai mewn gwaith gwirfoddol neu grŵp cymunedol neu'r ddau, sy'n ymwneud â gwarchod a/neu reoli coetiroedd lleol (9%), o'i gymharu â'r rheiny mewn ardaloedd eraill (4%).

Cymariaethau demograffig-gymdeithasol

Ymatebwyr a oedd wedi cymryd rhan naill ai mewn gwaith gwirfoddol yn ymwneud â choetiroedd neu grŵp cymunedol sy'n ymwneud â gwarchod a/neu reoli coetiroedd lleol (neu'r ddau), Cymru yn gyffredinol 5%:

- **Gradd Gymdeithasol** – ABC1 7%, C2DE 3%;
- **Yr Iaith Gymraeg** – Siarad Cymraeg 7%, ddim yn siarad Cymraeg 3%.

Atodiad 1: Trawstoriadau a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi

Mae Tabl A yn rhoi manylion am y trawstoriadau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad ar gyfer Cymru. Mae hefyd yn dangos y gyfran o'r sampl sydd ym mhob categori (e.e. o ran rhyw, roedd 46% yn ddynion a 54% yn ferched).

Tabl A: Newidynnau a ddefnyddiwyd mewn dadansoddiad atchweliad

Newidyn	Rhanbarthau	Dosraniad y Sampl	Dosraniad y boblogaeth 16+ yng Nghymru yng Nghyfrifiad 2001[2]	Manylion (pan fo angen)
Rhanbarth daearyddol	Gogledd Cymru	21%	23%	Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam
	De Orllewin Cymru/ y Canolbarth	30%	29%	Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe
	De Cymru	25%	24%	Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili
	De Ddwyrain Cymru	24%	23%	Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent
Gwledig/ trefol	Trefol (1) Ddim yn Drefol (0)	61% 39%		Ar sail cod post
	Cymysg (1) Ddim yn Gymysg(0)	17% 83%		
	Gwledig (1) Ddim yn wledig(0)	20% 80%		
Amddifadedd	10% mwyaf difreintiedig (1) Arall (0)	17% 83%		Ar sail cod post yr ymatebwyr

[2] Poblogaeth oedolion yng Nghymru (16 oed ac yn hŷn) 2,316,000

Newidyn	Rhanbarthau	Dosraniad y Sampl	Dosraniad y boblogaeth 16+ yng Nghymru yng Nghyfrifiad 2001[2]	Manylion (pan fo angen)
Oedran	16 – 34 (1) ddim yn 16-34 (0)	29% 71%	29% 71%	Cafodd oedolion 16 ac yn hŷn eu rhannu mewn 3 dosbarth oedran.
	35 – 54 (1) ddim yn 35–54 (0)	32% 68%	35% 65%	
	55+ (1) ddim yn 55+(0)	39% 41%	36% 46%	
Rhyw	Gwryw (1) Benyw (2)	46% 54%	48% 52%	
Graddau cymdeithasol MRS	ABC1 (1) C2DE (2)	46% 54%	47% 53%	
Afiechyd neu anabledd tymor hir	Oes (1) Nac oes (0)	25% 75%		
Statws Gwaith	Gweithio (1) Ddim yn gweithio (0)	50% 50%		Mae ddim yn gweithio yn cynnwys myfyrwyr, oedolion wedi ymddeol a phobl ddi-waith
Plant yn y cartref	Oes (1) Nac oes (0)	30% 70%		Plant o dan 16 oed yn y cartref
Siarad Cymraeg	Oes (1) Nac oes (0)	33% 67%	21% 79%	
Statws Priodasol	Priod (1) Dibriod (0)	50% 50%		Mae priod hefyd yn cynnwys y rheiny mewn partneriaethau sifil
Crefydd	Cristion (1) Ddim yn Gristion (0)	63% 37%	72% 28%	O Gwestiwn 9 yn yr arolwg
Grŵp Ethnig	Gwyn (1) Ddim yn Wyn (0)	98% 2%	98% 2%	

Sylwer: I gynorthwyo wrth ddehongli'r tabl, ceir manylion am y gwerthoedd a ddefnyddir ar gyfer pob un o'r newidynnau mewn cromfachau.

[2] Poblogaeth oedolion yng Nghymru (16 oed ac yn hŷn) 2,316,000

Disgrifiad o newidynnau

Graddau cymdeithasol y Gymdeithas Ymchwil Marchnata (MRS):

Mae'n cynnwys ABC1, pan fo'r prif enillydd incwm yn y cartref yn weithiwr heb fod yn waith llaw a C2DE, pan fo'r prif enillydd incwm yn y cartref yn weithiwr llaw neu'n ddi-waith.

Amddifadedd:

Cymerwyd y safle amddifadedd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008, wedi'i seilio ar ystod o ddangosyddion mewn meysydd fel Iechyd, Addysg a Chyflogaeth. Caiff amddifadedd ei fesur ar draws Ardaloedd Cynnyrch Ehangach (ACE), sef grwpiau o godau post sy'n cynnwys oddeutu 1,500 o bobl, sydd wedi cael eu rhoi mewn safle o 1 (mwyaf difreintiedig), i 1,896 (lleiaf difreintiedig). Mae'r arolwg hwn yn cyferbynnu'r ymatebion gan y rheiny sy'n byw yn y 10% o'r ardaloedd cynnyrch ehangach mwyaf difreintiedig â'r rheiny sy'n byw yn y 90% o ardaloedd cynnyrch ehangach lleiaf difreintiedig.

Gwledig/trefol:

Mae'r newidyn 'gwledig/trefol' yn seiliedig ar y diffiniad swyddogol a ddatblygwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac a gyhoeddwyd yn 2004. Mae hyn yn dosbarthu ardaloedd cynnyrch ehangach mewn pedair haen yn seiliedig ar faint a thrwch y boblogaeth - 'trefol', 'tref fach a chyrion tref', 'pentref' a 'gwasgaredig (pentrefannau ac anheddau anghysbell)'. Yn yr adroddiad hwn, mae'r ddau gategori olaf wedi'u cyfuno, ac o ran crynoder, cyfeirir at y categorïau fel 'trefol', 'trefi a chyrion trefi' a 'phentrefi a phentrefannau'.

Atodiad 2: Matrics cydberthynas o'r newidynnau a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi

Mae Tabl B yn rhoi manylion am y gydberthynas rhwng y newidynnau demograffig-gymdeithasol, amddifadedd a gwledig / trefol a ddefnyddir yn y modelu atchweliad. Y mwyaf yw maint cyfeirnod y gydberthynas, y mwyaf yw'r gydberthynas rhwng y newidynnau.

Mae parau mwy cydberthnasol o newidynnau yn cynnwys:

- oedran gyda phlant yn y cartref;
- oedran gydag afiechyd neu anabledd tymor hir
- afiechyd neu anabledd tymor hir gyda statws gwaith.

Tabl B: Cyfeirnodau cydberthynas y newidynnau a ddefnyddiwyd mewn dadansoddiad atchweliad

	Amddifadedd	Trefol / Gwledig	Rhyw	Oedran	Gradd Gymdeithasol	Anabledd	Statws gweithio	Plant yn y cartref	Siarad Cymraeg	Statws priodasol	Cefndir	Crefydd
Amddifadedd	1.00	0.10	0.00	-0.01	-0.16	-0.02	0.04	0.02	0.04	0.04	0.05	0.04
Trefol/ Gwledig [1]		1.00	-0.01	0.01	-0.02	0.02	0.03	-0.01	0.17	0.00	0.08	0.11
Rhyw			1.00	0.05	-0.01	0.02	-0.06	0.08	0.03	-0.06	0.07	0.15
Oedran [1]				1.00	-0.03	0.35	-0.25	-0.39	-0.03	0.25	0.04	0.28
Gradd gymdeithasol					1.00	0.15	-0.12	0.04	-0.02	-0.09	0.04	-0.03
Anabledd						1.00	-0.35	-0.18	-0.02	0.01	0.07	0.13
Statws gwaith							1.00	0.22	0.02	0.09	0.01	-0.10
Plant yn y cartref								1.00	0.03	0.13	-0.06	-0.16
Siarad Cymraeg									1.00	0.02	0.07	0.08
Statws priodasol										1.00	0.03	0.12
Cefndir ethnig											1.00	0.13
Crefydd												1.00

1- Er symlrwydd, mae'r oedran a'r nodweddion trefol/gwledig wedi cael eu cofnodi yn y matrics cydberthynas fel newidynnau unigol, ond yn y dadansoddiad atchweliad, mae pob un wedi'i gofnodi fel tri newidyn ffug fel y nodwyd yn nhabl A.

Hefyd, mae Tabl C yn dangos bod cydberthynas gadarnhaol rhwng ymatebwyr o Ogledd Cymru a chyfran y siaradwyr Cymraeg a chydberthynas negyddol rhwng ymatebwyr yn Ne Ddwyrain Cymru (gan gynnwys Caerdydd) a chyfran y siaradwyr Cymraeg.

Tabl C: Cyfeirnodau cydberthynas siaradwyr Cymraeg yn ôl rhanbarth

	Gogledd Cymru	De Cymru/ y Canolbarth	De Cymru	De Ddwyrain Cymru
Siarad Cymraeg	0.19	0.07	-0.08	-0.16

Gan fod y modelu atchweliad wedi ystyried y gydberthynas rhwng yr holl newidynnau a restrir yn Nhabl B, wrth ddadansoddi dim ond y canlyniadau cyffredinol, dylid ystyried y gydberthynas rhwng pob un o'r newidynnau hyn a'u heffaith ar ddehongli'r canlyniadau.

Atodiad 3: Dull samplu Beaufort Research

Mae'r sampl omnibws wedi'i chynllunio i gynrychioli'r boblogaeth oedolion sy'n byw yng Nghymru sy'n 16 oed ac yn hŷn. Uned y samplu yw'r ward etholiadol a dewisir 68 o leoedd cyfweld ledled Cymru gyda thebygolrwydd yn gyfatebol i boblogaeth y trigolion, ar ôl creu haenau yn y sir (awdurdod unedol).

Ym mhob man samplu, defnyddir rheolaethau cwota cydgloadol o oedran a dosbarth cymdeithasol o fewn Rhyw ar gyfer dewis ymatebwyr.

Gosodir cwotâu i adlewyrchu proffil demograffig trigolion Cymru ac ni chaiff mwy nag un unigolyn o bob cartref ei gyfweld. Dewisir sampl newydd ar gyfer pob arolwg yn yr un lleoliadau cyfweld i raddau helaeth.

Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi ymatebwyr. Defnyddir gweithwyr maes profiadol Beaufort gydag ôl-wiriadau post a ffôn yn unol â BS7911.

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer arolwg Mawrth 2007 yn bennaf yn ystod y cyfnod 6 - 18 Mawrth 2009 gyda gweddill y gwaith maes yn cael ei gwblhau rai dyddiau yn ddiweddarach. Cafodd cyfanswm o 1,002 o gyfweliadau eu cwblhau a'u dadansoddi.

Atodiad 4: Holiadur Cymru 2009

C1	**[Pob un]** **a) O'r rhestr hon, dywedwch wrthyf pa rai o'r manteision canlynol y mae coetiroedd yn eich ardal chi yn eu cynnig i'r gymuned leol yn eich barn chi?** (Aml-ddewis) • Maent yn cefnogi'r economi leol • Maent yn helpu denu ymwelwyr i'r ardal • Maent yn darparu pren fel tanwydd adnewyddadwy • Maent yn hygyrch i bawb yn y gymuned • Maent yn darparu lleoedd i fywyd gwyllt fyw • Maent yn darparu lleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden (fel cerdded, beicio, marchogaeth) • Maent yn darparu lleoedd ar gyfer ymlacio a lleddfu straen • Maent yn gwella'r dirwedd • Maent yn creu lleoliadau dymunol ar gyfer datblygiadau o amgylch y gymuned • Maent yn rhoi cyfle i bobl yn y gymuned weithio gyda'i gilydd • Maent yn helpu lleihau llygredd aer a sŵn • Maent yn cael gwared ar garbon deuocsid o'r atmosffer, gan arafu newid yn yr hinsawdd • Gall ysgolion lleol a grwpiau addysgol eraill eu defnyddio • Mae'n fanteisiol gwybod eu bod nhw yno • Dim **b) O'r rhestr hon, dywedwch wrthyf pa un o'r materion canlynol sy'n ymwneud â choetiroedd sy'n creu anfantais i'ch cymuned leol** (Aml-ddewis) • Nid yw coetiroedd yn darparu swyddi lleol – defnyddir contractwyr o leoedd eraill • Mae'n anodd iawn cael coed tân o'n coetiroedd lleol • Nid oes mynediad i'r coetiroedd yn ein hardal ni • Nid yw'r coetiroedd yn ein hardal ni yn dda ar gyfer bywyd gwyllt • Nid yw'r coetiroedd yn ein hardal ni yn lleoedd braf i ymweld â nhw • Mae'r coetiroedd yn gwneud ein tirwedd yn waeth • Mae'r coetiroedd yn atal datblygiadau o amgylch y gymuned • Ni allwn reoli'r hyn sy'n digwydd yn ein coetiroedd lleol • Mae rheoli coetiroedd yn llygru'r aer/dŵr/pridd • Mae gweithrediadau coetiroedd ac ymwelwyr yn creu llygredd sŵn • Mae gweithrediadau coetiroedd yn creu carbon deuocsid gan wneud newid yn yr

	hinsawdd yn waeth • Mae gweithgarwch troseddol yn digwydd mewn coetiroedd yn ein hardal ni • Mae lorïau coed / ymwelwyr â choetiroedd yn gwneud y ffyrdd yn brysur • Mae lorïau coed yn gwneud i mi deimlo'n anniogel wrth gerdded/gyrru ar y ffyrdd • Dim un o'r rhain
C2	**[Pob un]** **a. Beth ydych chi'n ei hoffi am eich tirwedd leol?** (Aml-ddewis) • Adeiladau (eglwysi, tai, ac ati) • Coed • Coetir neu goedwig • Lle agored (e.e. parciau) • Tir fferm • Bryniau agored/ mynyddoedd neu weundir • Dŵr (môr, afonydd, llynnoedd, camlesi) • Arall (nodwch) • Dim byd **b. Beth ydych chi ddim yn ei hoffi am eich tirwedd leol?** (Aml-ddewis) • Adeiladau (eglwysi, tai, ac ati) • Coed • Coetir neu goedwig • Lle agored (e.e. parciau) • Tir fferm • Bryniau agored/ mynyddoedd neu weundir • Dŵr (môr, afonydd, llynnoedd, camlesi) • Arall (nodwch) • Dim byd

C3	**[Pob un]** **3a: A oes unrhyw goedwigoedd neu goetiroedd y gallwch eu cyrraedd yn hawdd heb ddefnyddio car neu fath arall o gludiant?** • Oes (Ewch i C3b) • Nac oes (Ewch i C3c) • Ddim yn gwybod (Ewch i C3c) **[Os gwnaethoch chi ateb 'oes' yn C3a]** **b. Pa mor aml ydych chi'n ymweld â'r coedwigoedd neu'r coetiroedd hyn?** • Mwy nag unwaith yr wythnos, • Tua unwaith yr wythnos, • Sawl gwaith bob mis, • Tua unwaith y mis, • Llai na hynny. • Byth • Ddim yn gwybod **[Pob un]** **c. Pa un/rai o'r canlynol sy'n bwysig i chi wrth ddewis ymweld â choetir?** (Aml-ddewis) • Mae'n agos/hawdd ei gyrraedd • Gwybod bod croeso i ymwelwyr yno • Golygfeydd hardd • Bywyd gwyllt • Heddwch a llonydd • Lle da i ymlacio/ cael gwared ar straen • Da ar gyfer ymarfer corff • Amgylchedd diogel • Dim tâl mynediad • Arwyddion clir – sy'n groesawgar ac yn rhoi cyfarwyddyd • Traciau a llwybrau clir a hygyrch • Amrywiaeth o weithgareddau • Mae croeso i gŵn • Gwybod y gallwch fynd trwy gatiau a thros gamfeydd gyda'ch grŵp (gan gynnwys cadeiriau gwthio, cŵn, cadeiriau olwyn neu os ydych yn anabl) • Dim un o'r rhain • Ddim yn gwybod

C4	**[Pob un]** **a. A ymgynghorwyd â chi erioed ynglŷn â chynlluniau ar gyfer creu, rheoli neu ddefnyddio coetiroedd yn eich ardal?** • Do • Naddo • Ddim yn gwybod **b. A hoffech chi pe bai rhywun yn ymgynghori â chi yn y dyfodol ynglŷn â chynlluniau ar gyfer creu, rheoli neu ddefnyddio coetiroedd yn eich ardal?** • Byddwn • Na fyddwn • Ddim yn gwybod **[Gofynnwch os gwnaethoch chi ateb 'do' i C4a]** **c. A ydych chi'n teimlo eich bod wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â chreu, rheoli neu ddefnyddio coetiroedd yn eich ardal?** • Ydw • Nac ydw • Ddim yn gwybod **[Gofynnwch os gwnaethoch chi ateb 'byddwn' i C4b]** **ch. A ydych chi'n teimlo y byddech yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â chreu, rheoli neu ddefnyddio coetiroedd yn eich ardal?** • Ydw • Nac ydw • Ddim yn gwybod
C5	**[Pob un]** **A ydych chi a/neu unrhyw un yn eich teulu wedi mynychu unrhyw un o'r gweithgareddau neu'r digwyddiadau dysgu canlynol a drefnwyd sy'n ymwneud â choetiroedd yn ystod y 12 mis diwethaf?** (Aml-ddewis) • Gwibdaith ysgol • Taith gerdded dywysedig neu sgwrs • Cwrs neu ddigwyddiad hyfforddi wedi'i drefnu (fel adeiladu waliau cerrig sych, ffensio, creu blychau adar, rheoli coetiroedd) • Digwyddiad plannu coed wedi'i drefnu • Digwyddiad arall wedi'i drefnu (nodwch) • Dim un o'r rhain

C6	**[Pob un]** **a. A ydych chi wedi cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol sy'n ymwneud â choetiroedd yn ystod y 12 mis diwethaf (e.e. gwaith corfforol mewn coedwig, gweinyddu, codi arian, rhedeg grŵp)?** • Ydw • Nac ydw **b. A ydych chi'n aelod o unrhyw grwpiau cymunedol sy'n ymwneud â gwarchod a/neu reoli coetiroedd lleol?** • Ydw (Ewch i C6c) • Nac ydw (Ewch i C7a) **[Gofynnwch os gwnaethoch ateb 'ydw' i 6b]** **c. Beth yw enw eich grŵp?**
C7	**[Pob un]** **a. A ydych chi'n defnyddio pren yn danwydd yn eich cartref o gwbl, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda thanwyddau eraill?** • Ydw (Ewch i 7b) • Nac ydw (Ewch i 7d) **[Gofynnwch os gwnaethoch chi ateb 'ydw' i C7a]** **b. A ydych chi'n cael y pren mewn llwyth tryc/fan, neu ychydig o fagiau ar y tro, neu'n ei gasglu eich hun?** • mewn llwyth tryc/fan • ychydig o fagiau ar y tro • casglu'r pren eich hun • Arall (nodwch) **[Gofynnwch os gwnaethoch ateb 'ydw' i C7a]** **c. A ydych chi'n defnyddio pren yn danwydd yn rheolaidd neu'n achlysurol yn unig?** • Yn rheolaidd • Yn achlysurol **[Gofynnwch os gwnaethoch ateb 'ydw' i C7a]** **ch. Ai pren yw'r prif danwydd ar gyfer gwresogi eich cartref, neu a ydych chi'n defnyddio rhywbeth arall yn bennaf?** • prif danwydd • Rhywbeth arall (nodwch) **[Ar ôl C7ch, ewch ymlaen i C8]**

	[os gwnaethoch ateb 'nac ydw' i C7a] **d. Beth yw'r prif reswm pam nad ydych yn defnyddio pren yn danwydd yn eich cartref?** • Erioed wedi meddwl amdano • Hapus â'r system bresennol • Nid yw'n ymarferol ar gyfer yr eiddo hwn • Pryderu ynghylch cost • Pryderu ynghylch effeithlonrwydd • Pryderu ynghylch pa mor hawdd ydyw i'w ddefnyddio • Pryderu ynghylch materion amgylcheddol • Nid wyf yn berchen ar eiddo • Diffyg cymorth/cyflenwyr lleol • Arall [nodwch]
C8	**[Pob un]** **A ydych chi wedi prynu unrhyw un o'r cynhyrchion canlynol wedi'u gwneud o bren yn ystod y 12 mis diwethaf?** (Aml-ddewis) • Dodrefn • Llawr • Cabinetau/wynebau gweithio cegin ac ystafell ymolchi • Drysau • Deciau/ Ffensys • Dodrefn / offer gardd • Pren arall ar gyfer prosiectau tasgau'r cartref • Teganau • Crefftau (powlenni, llwyau, ac ati) • Arall (nodwch) **A ydych chi erioed wedi gweld y naill neu'r llall o'r logos hyn ar gynhyrchion pren? [dangoswch y logos, amlgod]** • FSC FSC • PEFC

	PEFC
C9	**[Pob un]** **Beth yw eich crefydd?** • Dim • Cristion (gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Babyddol, yr Eglwys Brotestanaidd a'r holl enwadau Cristnogol eraill) • Bwdhydd • Hindŵ • Mwslim • Iddew • Sikh • Arall (Nodwch)